

Gwaith y Pwyllgor Celfyddydau Gweledol

1. Swyddogion y pwyllgor fydd yn arwain ar y gwaith a'r trafodaethau, sef:

- **CADEIRYDD:** Dyletswydd y Cadeirydd yw arwain ac ysbrydoli'r aelodau wrth gadeirio'r pwyllgorau yn effeithlon, gan gynrychioli barn y pwyllgor yn y Pwyllgor Gwaith.
- **YSGRIFENNYDD:** Prif swyddogaeth yr Ysgrifennydd yw cofnodi yn gywir a threfnus ac mewn Cymraeg graenus, gan anfon copi o'r cofnodion at y Trefnydd drwy e-bost o fewn tri diwrnod ar ôl y cyfarfod.

Bydd y Cadeirydd yn dod yn aelod o Bwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, a gofynnir i'r Ysgrifennydd fynychu yn ei h/absenoldeb. Yn ogystal â hyn, bydd y 2 swyddog yn dod yn aelod o'r Panel Canolog Celf dros gyfnod yr Eisteddfod.

2. Rheolau Sefydlog – cyn gwneud dim arall, mae angen eu darllen a'u derbyn yn swyddogol fel pwyllgor.

3. Y Swyddog Celfyddydau Gweledol

Mae'r pwyllgor yn gweithredu mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Celfyddydau Gweledol. Ef/hi yw'r ddolen gyswllt rhwng y pwyllgor, y Panel a pheirianwaith gweithredol yr Eisteddfod. Mae ganddo/i hefyd ddyletswyddau eraill, yn fwyaf arbennig i weinyddu llwyfaniad yr arddangosfa a'r gweithgareddau eraill yn flynyddol, i hyrwyddo a datblygu'r celfyddydau gweledol yn yr Eisteddfod, ac i gydweithio â chyrff eraill yn y maes ar ran yr Eisteddfod.

4. Detholwyr yr Arddangosfa Agored

Gwahoddir tri arbenigwr i ymgymryd â'r dasg ac mae angen cynnig rhestr o enwau gan roi ystyriaeth y pwyntiau isod:

- aelodaeth paneli dethol y gorffennol
- natur ac amrywiaeth y detholwyr
- adlewyrchiad eang o ddisgyblaethau
- un detholwr o'r tu allan i Gymru
- un sy'n siarad Cymraeg

Mae'r gwaith uchod i'w gwblhau yn ystod y cyfarfodydd cyntaf fel bod modd ei gyflwyno i'r Panel Canolog mewn cyfarfod ar y cyd ar **25 Ionawr 2020**. Cyflwynir yn derfynol i Bwyllgor Diwylliannol yr Eisteddfod ym mis Mawrth 2020.

NI FYDDWN YN CYSYLLTU Â'R DETHOLWYR NES BOD Y PWYLLGOR DIWYLLIANNOL WEDI'U CYMERADWYO.

5. Detholwyr yr adran Bensaernïaeth

Gwahoddir dau arbenigwr i ddyfarnu gwobrau'r adran ynghyd â dethol yr Arddangosfa Bensaernïaeth. Yn ogystal, gwahoddir arbenigwr i ymuno a detholwr 2019 i ddyfarnu'r Ysgoloriaeth Bensaernïaeth. (Gweithredir ar y cyd â Chymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru a Chomisiwn Dylunio Cymru).

6. Arddangosfa Arbennig

Bydd angen ystyried cynnal arddangosfa a fydd yn adlewyrchu diwylliant gweledol y dalgylch neu sy'n berthnasol i ddiwylliant yr ardal. Gall hwn ddilyn thema briodol neu gyfrwng perthnasol, o waith artist neu grŵp o ymarferwyr penodol, mewn unrhyw gyfrwng. Gellir ystyried pontio gwahanol ffurfiau ar gelfyddyd. Ond dylai'r arddangosfa, yn gyffredinol gyd fynd ag amcanion yr Eisteddfod, ac anelu at y safon gorau posibl.

7. Gwobrau a Nawdd

Bydd angen i'r pwyllgor annog pobl neu gynnig enwau sefydliadau i roi gwobrau neu nawdd. **RHAID** cyfeirio pob cais am wobwr i'r Pennaeth Gweithredu Cymunedol, Alwyn Roberts (Gweler y wybodaeth gyswllt isod) â maint y wobwr a gynnigir. Bydd y Swyddog neu'r Eisteddfod wedyn yn cysylltu â'r person neu'r sefydliad dan sylw i drafod y posibilïadau. Gellir clustnodi gwerth ariannol unrhyw wobwr yn erbyn targed ardal arbennig os yw'r rhoddwr yn dymuno.

8. Y Seremoni Wobrwyo ac Agoriad Swydddogol

Trefnir y Seremoni Wobrwyo gan y Trefnydd / Pennaeth Artistig a'r Swydddog.

Dylid cynnig enw person addas i arwain Agoriad Swydddogol Y Lle Celf ar y Sadwrn cyntaf ynghyd â seremoni cyhoeddi enillydd Gwobr Josef Herman – Dewis y Bobl ar y Sadwrn olaf.

Bydd angen croesawu prif enillwyr Y Lle Celf ar y Sadwrn cyntaf; eu tywys o gwmpas yr arddangosfeydd; eu hebrwng i'r Prif Bafiliwn ar gyfer y Seremoni Wobrwyo a gofalu amdanynt tan Agoriad Swydddogol Y Lle Celf.

Yn ogystal, byddai'n dda pe byddai aelodau'r pwyllgor ar gael i groesawu a thywys yn ystod yr Agoriad Swydddogol ac yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

9. Stiwardio

Cyfrifoldeb y pwyllgor yn bennaf fydd recriwtio stiwardiaid i warchod y gwaith celf a diogelu'r cyhoedd. Mae cael stiwardiaid lleol i weithredu yn Y Lle Celf yn hanfodol i lwyddiant yr wythnos. Yn ddelfrydol pobl leol sy'n gwirfoddoli ar gyfer Y Lle Celf yn unig sy'n gweithio orau ac fe ddylent fod ar gael i dderbyn hyfforddiant yn ystod yr wythnosau cyn yr Ŵyl. Dylid gwneud pob ymdrech i gasglu enwau'r rhai sydd â diddordeb yn y celfyddydau gweledol ac sy'n gallu cyfleu hyn i'r cyhoedd. Yn rhan o'r hyfforddiant, dylid rhoi nodiadau esboniadol ynglŷn â'r gwaith celf, gwybodaeth ynglŷn â'r detholwyr, prisiau'r gweithiau sydd ar werth a'r wybodaeth ynglŷn â'r Cynllun Casglu.

10. Gweithgareddau cyn yr Eisteddfod

Gellir ystyried dulliau o godi ymwybyddiaeth o'r Celfyddydau Gweledol, neu'r Eisteddfod yn gyffredinol. Er enghraifft, mae gweithdai yn cynnig cyfle i rannu profiad creadigol gydag artistiaid o bob cyfrwng yn ystod y cyfnod yn arwain at yr Eisteddfod ac yn ystod yr Eisteddfod ei hun. Gall gweithdai fod yn gyfres gysylltiol neu yn weithgareddau unigol. Gellir trefnu gweithgareddau penodol gan artistiaid o wahanol ddisgyblaethau, gyda'r pwyslais ar greu gweledol. Gellir ystyried gwneud hyn i gydweddu â themâu a gweithgareddau eraill.

11. Gweithgareddau yn ystod yr Eisteddfod

Dylid ystyried gwahodd siaradwyr i drafod gwahanol agweddau ar ddiwylliant gweledol, yn ddelfrydol i gydweddu â gweithgareddau eraill. Mewn ymgynghoriad â'r Swydddog, gellir hefyd ystyried gweithgareddau, 'digwyddiadau', gosodiadau ac ymyriadau eraill ar faes yr Eisteddfod.

Gall y pwyllgor ystyried cyfeiriad newydd ac arloesol neu ddychwelyd at batrymau eraill os mynnant, ond disgwylir i hyn ddigwydd drwy gydweithrediad a'r Panel a'r Swydddog, er mwyn sicrhau fod hyn cydweddu â bwriadau hirdymor ac amcanion yr Eisteddfod.

12. Gwaddol

Gellir hefyd trafod ffyrdd o adael gwaddol o ran y rhwydweithiau a digwyddiadau cymunedol posib er mwyn parhau i ymgysylltu yn y dyfodol.

Robyn Tomos – Swydddog Celfyddydau Gweledol: robyn@eisteddfod.org.uk

Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF4 5DU 07787 550017 / 029 2074 1709

Elen Huws Elis - Trefnydd a Pennaeth Artistig: elen@eisteddfod.org.uk (cystadlaethau ac arlwy ar y Maes)

Alwyn Roberts - Pennaeth Gweithredu Cymunedol: alwyn@eisteddfod.org.uk (gwobrau)

Swyddfa'r Eisteddfod, Uned 15, Parc Busnes yr Wyddgrug, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XP / 0845 409 0400